DISGRIFIAD SWYDD

Teitl Swydd: Pen-cogydd Gofal Ychwanegol

Cwmni: Cymdeithas Tai ClwydAlyn

Yn atebol i: Rheolwr/Uwch Ben-cogydd Gofal Ychwanegol

Yn gyfrifol am: Cogydd Cyfrifol/Cogydd/Cynorthwywyr Cegin

Cymwysterau: Cymhwyster Arlwyo neu brofiad arlwyo eang perthnasol a Thystysgrif Lefel 2 Hylendid Bwyd. Tystysgrif Ymwybyddiaeth Alergenau

1. Diben y Swydd

   Goruchwylio gweithrediad y gegin yn ddyddiol i gynnwys darparu prydau maethlon i breswylwyr, goruchwylio staff, gan sicrhau bod digon o stoc yn y gegin, monitro cyllidebau'r gegin a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau iechyd a hylendid.

Prif gyfrifoldebau

Sicrhau bod digon o staff yn eu lle, cyfathrebu gyda Rheolwr Gofal Ychwanegol petai staff yn brin. Rhoi cyfarwyddyd i holl staff y Gegin a bod yn gyfrifol amdanynt o ddydd i ddydd.

Sicrhau bod bwydlenni'n cael eu cynllunio'n effeithiol, gan weithredu cyfarwyddyd maeth, gan hefyd roi ystyriaeth i ddewisiadau'r preswylwyr.

Meddu profiad neu wybodaeth drylwyr am ddiet arbennig a pharatoi bwyd.

Gweithredu a chadw at reoliadau bwyd cyfredol sy'n benodol yn ymwneud â'r swydd (cyfreithiau alergenau, cyfarwyddyd acrylamid ac yn y blaen) a chofnodi'r holl wybodaeth angenrheidiol

Sicrhau bod bwyd yn cael ei baratoi ac yn barod i'w weini, gan ystyried unrhyw ofynion arbennig fel yr angen i ddosbarthu i lety'r preswylwyr pan na fyddant yn dda.

Cadw gwastraff cyn lleied â phosibl, trwy ddeall amrywiadau tymhorol, dewisiadau bwyd a gofynion dietegol ymhlith y preswylwyr.

Archebu'r holl fwyd, gan sicrhau bod cyflenwad digonol ar gael. Derbyn yr holl ddosbarthiadau bwyd, sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel, a chylchdroi stoc.

Sicrhau bod cyflenwadau bwyd yn cael eu derbyn mewn cyflwr da a'u storio yn briodol. Llenwi'r holl ddogfennau sy'n ofynnol i fodloni gofynion Bwyd Diogelach Gwell Busnes.

Goruchwylio hylendid y bwyty, ardaloedd gwaith ac offer y gegin.  Cynnal gwiriadau dyddiol ac arolygon, gan sicrhau bod adroddiad am ddiffygion ac offer sydd wedi torri yn cael ei roi ar unwaith.

Sicrhau bod unrhyw aelod o'r staff sy'n gweithio yn y gegin yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau gweithgynhyrchwr wrth weithredu a defnyddio offer a chemegolion gan weithredu rheoliadau COSHH bob amser.   Sicrhau bod adroddiad yn cael ei roi am bob damwain sydd bron â digwydd. Â'r gallu i gynorthwyo/cyflawni asesiadau risg yn y gegin.

Bod yn gyfrifol am drefnu staff dros wyliau staff eraill gan gyfathrebu gyda Rheolwr y Cynllun/yr Uwch Pen-cogydd Gofal Ychwanegol i sicrhau bod digon o staff ar gael bob amser.

Rhoi cyfarwyddyd i dîm y gegin yn ôl y gofyn a gwerthuso eu perfformiad gan ddefnyddio MSM a chynorthwyo ar Adroddiadau Datblygiad Proffesiynol.

Â'r gallu i ymateb yn gadarnhaol i geisiadau preswylwyr neu gwynion am y bwyd a gweithredu i ddatrys hynny os bydd angen.

Yn gyfrifol am drin unrhyw drafodion ariannol yn y bwyty gan recordio a chofnodi trafodion o'r fath